**EITEM AR YR AGENDA: 15**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**21 Mawrth 2016**

**ADOLYGU PENODIAD STATUDOL A CHYTUNDEB LEFEL GWASANAETH AR GYFER TRYSORYDD**

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc a**
**Simon Smith, Prif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r aelodau am ganfyddiadau'r adolygiad o'r cytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer darparu Trysorydd i'r Awdurdod Tân ac Achub, a'r trefniadau arfaethedig ar gyfer penodi i'r swydd statudol honno.

## Gwybodaeth

2 Yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 14 Rhagfyr 2015, comisiynodd yr Aelodau adolygiad o benodiad statudol Trysorydd i'r Awdurdod Tân ac Achub ac o'r cytundeb lefel gwasanaeth cysylltiedig.

3 Cafodd yr adolygiad ei gymell gan Mr Ken Finch, sydd wedi ymgymryd â swydd Trysorydd am y 19 mlynedd ddiwethaf, yn gadael ei gyflogaeth â CBS Conwy ddiwedd Ionawr 2016. Daeth hyn â'r cytundeb presennol i ben a phrysuro'r angen i adolygu'r trefniadau presennol.

4 Drwy'r pwyllgor materion cenedlaethol (PMC), edrychwyd ar drefniadau'r ddau Awdurdod Tân ac Achub arall yng Nghymru. Mae ATA y De ac ATA y Canolbarth a'r Gorllewin yn gweithredu model fymryn yn wahanol. Mae ATA y De yn cyflogi Trysorydd annibynnol am 100 o ddiwrnod y flwyddyn am gost o £15,021. Mae'r gofyniad arnyn nhw yn fwy gan nad oes ganddynt gyfrifydd

cymwysedig yn aelod o'r prif dîm rheoli. Yn ATA y Canolbarth a'r Gorllewin, mae un o'r Prif Swyddogion Cynorthwyol yn gyfrifydd cymwysedig, ac mae hi'n ymgymryd â swydd Trysorydd fel rhan o'i dyletswyddau. Er bod hyn yn golygu'r fantais o wybodaeth fanwl am y sefydliad, nid yw'n darparu trosolwg annibynnol o sefyllfa ariannol yr Awdurdod.

5 Ar ôl cymharu'r trefniadau hyn gyda'r rhai sydd yn eu lle ar gyfer ATA Gogledd Cymru, cynigir bod ATA Gogledd Cymru yn parhau gyda'i drefniadau ei hun, gan ddarparu manteision y ddau fodel. Hynny yw, cael Trysorydd annibynnol dan gontract am 12 diwrnod y flwyddyn am gost o £7,164 i weithio gyda'r Dirprwy Brif Swyddog Tân sy'n gyfrifydd cymwysedig.

6 Mae CBS Conwy wedi dweud na fydd bellach mewn sefyllfa i ddarparu Trysorydd gyda'i lefel gyfredol o adnoddau a staff, ac y bydd angen penodi drwy hysbyseb a phroses gystadleuol yn y flwyddyn ariannol newydd.

**Argymhelliad**

7 Gofynnir i'r Aelodau nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo'r trefniadau arfaethedig ar gyfer darparu Trysorydd i'r Awdurdod Tân ac Achub.

8 Hefyd, gofynnir i'r Aelodau gymeradwyo'r broses benodi, fel yr amlinellir hi uchod.